# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**4/2/25**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Llinos Edwards, Euros Roberts, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones a Rhodri Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid)

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**Cynllun Wardeinio Gwirfoddol Parc Cenedlaethol Eryri:**

Croesawyd Gwenno Jones (Swyddog Cysylltu) a Simon Jones (Warden Cynorthwyol Llyn Tegid) o'r Parc Cenedlaethol i'r cyfarfod i drafod ymateb y Parc Cenedlaethol i brysurdeb tymor ymwelwyr 2024, a'r problemau sydd angen eu datrys. Nodwyd fod y Parc Cenedlaethol yn cynnig cyfleon i wirfoddoli yn ardal Llyn Tegid a Phenllyn, hyn yn cynnwys meysydd parcio Llangywer a Llanuwchllyn. Nodwyd y byddai'r gwaith yn cynnwys croesawu a rhoi gwybodaeth i ymwelwyr ar faterion gwarchod yr ardal a chadwraeth yn gyffredinol. Nodwyd fod hyfforddiant a dillad addas ar gael, a bod modd cofrestru diddordeb ar wefan y Parc. Nodwyd hefyd fod cyfleon i wirfoddoli ar ymgyrchoedd casglu sbwriel, plannu coed a gwrychoedd, a bod Diwrnod Croeso yn cael ei gynnal yn Swyddfa Llyn Tegid rhwng 10am a 12pm ddydd Sadwrn Ebrill 12fed. Awgrymwyd fod angen hysbysebu'r cyfleon yma ar bosteri, yn y Cyfnod, Pethe Penllyn ac ar wefan Tegid360. Diolchwyd i Gwenno a Simon am eu cyflwyniad.

**3136 Croeso:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**3137 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Alwyn Jones a Heledd Jones.

**3138 Datganiadau o fuddiant:** Nid oedd buddiant i'w ddatgan.

**3139 Cofnodion Cyfarfod Ionawr 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3140 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Sedd wag y cyngor: Adroddwyd na fu cais am etholiad i lenwi'r sedd wag, a bod cyfle felly i'r cyngor gyfethol aelod newydd, ac fe gytunwyd i hysbysebu'r cyfle yma yn ôl y drefn arferol.
ii. Clirio palmentydd y pentref: Diolchwyd i'r criw fu'n graeanu palmentydd y pentre yn ystod cyfnod rhew fis Ionawr, a nodwyd fod yr ardalwyr yn ddiolchgar iawn. Cytunwyd i ymchwilio i gostau prynu peiriant graeanu bychan. Nodwyd y bydd angen sgubo'r palmentydd unwaith y bydd Cyngor Gwynedd wedi glanhau'r ffordd, a bod rhai trigolion wedi mynegi eu parodrwydd i wirfoddoli gyda'r gwaith.
iii. Hysbysfwrdd ger Pont Llan: Adroddwyd fod yr hysbysfwrdd yn cael ei drwsio yn dilyn difrod diweddar.

**3141 Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Cafwyd adroddiad oedd yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i roi llinellau dwbl i wahardd goddiweddyd ger

croesffordd y Prys gan nad yw'r groesffordd yn bodloni y canllawiau ar gyfer hyn. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu priffyrdd wrth glirio eira a graeanu, a nodwyd hefyd fod coeden wedi disgyn ar yr A494 ger ardal Caergai, gan achosi perygl i ddefnyddwyr y ffordd. Adroddwyd fod cwlfert wedi ei glirio ger Ysgol OME a Bro Aran, a bod rhaglen o waith sgubo ar y gweill fel bo dwr yn clirio o'r ffyrdd i'r draeniau.

**3142 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu – heb gyfarfod yn ddiweddar, ond nodwyd ei bod yn debygol y bydd angen cydweithrediad y cyngor i ddatblygu'r gwaith o gasglu a dehongli enwau tirwedd lleol.
2. Mynwentydd – heb gyfarfod yn ddiweddar.
3. Bioamrywiaeth: Derbyniwyd adroddiad o waith yr is bwyllgor, a nodwyd fod y pwyllgor yn cydweithio hefo swyddogion y Parc Cenedlaethol i reoli coed a gwrychoedd ger y Fynwent Newydd.
4. Nadolig: Heb gyfarfod yn ddiweddar.
5. Asedau: Nodwyd fod hysbysfwrdd a meinciau'r pentref yn cael sylw ar hyn o bryd, ac fe nodwyd fod peth difrod i arwyneb Llwybr Tegid yn dilyn llifogydd dechrau'r flwyddyn.
6. Cyllid: Heb gyfarfod yn ddiweddar.

**3143 Materion Ariannol:** Cymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

Cyflog y Clerc.
Cytundeb glanhau a biliau trydan y toiledau.
CCF – nwyddau glanhau a nwyddau'r Is Bwyllgor Nadolig.
Siop Celt – Coeden Nadolig.
Cyngor Gwynedd – casgliad gwastraff masnachol y Fynwent Newydd.
Nodwyd derbyn ad daliad TAW y cyngor am 2023/2024.
Cytunwyd i drafod ceisiadau am gymorth ariannol y cyngor yn ystod cyfarfod mis Mawrth.

**3144 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod y fenter yn parhau gyda gwelliannau i'r Eagles, gyda gwaith wedi ei gwblhau yn y gegin ac ardal y bar, gwaith trydanol a rheoli'r sustem wresogi ac atgyweirio'r to, a bod bwriad i osod Paneli Solar ar yr adeilad yn fuan. Adroddwyd hefyd fod y fenter yn gweithio ar brosiect i ddarparu tai i bobl leol. Cafwyd trafodaeth ar y goeden ywen sydd ym Mynwent yr Eglwys ger Porth y Fynwent, ac fe gytunwyd i drafod ei chyflwr a'i diogelwch gyda swyddogion y Parc Cenedlaethol.

**3145 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Nodwyd fod y gwaith o uwchraddio Canolfan Bro Tegid yn dod yn ei flaen yn dda. Nodwyd hefyd fod cyfle i'r cyngor cymuned gael cynrychiolydd ychwanegol ar fwrdd y cwmni.

**3146 Ceisiadau cynllunio:** Nid oedd ceisiadau i'w hystyried.

**3147 Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn:

i. Gwybodaeth am gyfarfod ar Chwefror 12fed i drafod sut i gadw a dehongli enwau tirwedd lleol a gofnodwyd mewn sesiwn yn y pentref ar Dachwedd 20fed. Nodwyd hefyd yr angen i gofnodi recordiadau o sgyrsiau am hanes yr ardal.
ii. Llythyr yn tynnu sylw at beryglon parcio ar y briffordd ger mynedfa'r Eagles, yn benodol ar amseroedd pan fydd plant yn cerdded i'r ysgol neu adref o'r ysgol. Cytunwyd i roi nodyn gyda'r cofnodion yn y Cyfnod yn tynnu sylw ardalwyr at y sefyllfa yma.
iii. Llythyr gan Gyfeillion Llyn yn tynnu sylw ar yr angen am bolisi iaith etc i'r cyngor. Nodwyd fod y polisïau hyn yn eu lle.
iv. Llythyr gan Sian Gwenllian yn gofyn am gefnogaeth y cyngor i'w hymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor. Cytunwyd i gefnogi'r ymgyrch.
v. Copi o Ymgynghoriad Trafnidiaeth Ranbarthol Uchelgais Gogledd Cymru.
vi. Gwybodaeth gan Un Llais Cymru am Wobrau Cenedlaethol 2025, Arolwg Pwyllgor Ardal, Cyfarfod Blynyddol 2025 a gwahoddiad i enwebu aelod o'r cyngor i fynychu digwyddiad ym Mhalas Buckingham.
vii. Gwahoddiad gan Gyngor Gwynedd i gyfarfod Ardal Ni yn y Bala ar Fawrth 10fed.

**3148 Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Cafwyd trafodaeth ar y graean sydd wedi setlo yn yr Afon Lliw, gan arwain at lifogydd ar yr A494. Cytunodd y Cyng Alan Jones Evans i chwilio am ohebiaeth flaenorol ar y mater gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, ac i gysylltu a nhw i fynegi pryderon y cyngor cymuned am y sefyllfa. Adroddwyd hefyd fod cyflwr y ffordd yn fregus ger Tŷ Mawr Cynllwyd a'r Weirglodd Gilfach – Alan Jones Evans i wneud ymholiadau.

**3149 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 4/3/25 am 7.30pm.